

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/5/2019

**Presennol:** Rhodri Jones (Cadeirydd), (Is-gadeirydd), , Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Lindsey Ellis-Edwards, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw Antur.  
Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn gyda Huw Antur yn ei brofedigaeth ac estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor at y teulu i gyd.

**1991 Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd.

**1992 Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd, Rhodri Jones, a thalodd deyrnged i'r cyn-gadeirydd, Alwyn E Jones, am ei arweiniad a'i ymroddiad ar hyd y flwyddyn ddiwethaf.

**1993 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**1994 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 2il, 2019.

**1995 Materion y Clerc :**

- i. 1983 - Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi hysbysu Swyddfa'r Post mai'r enw Cymraeg yw'r unig ffurf gywir ar anedd arbennig yn yr ardal.
- ii. 1990.3 – Ni dderbyniwyd ateb llawn hyd yn hyn am y gwaith ar lwybr Rhif 7 Tal y Bont
- iii. 1990.4i Cymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn – ni dderbyniwyd ymateb i ymholiad y Cyngor.
- iv. Cytunwyd i gynnig yr wybodaeth sydd ar dudalen flaen gwefan y Cyngor fel cyfraniad y Cyngor i lyfryn sydd yn cael ei baratoi gan berchennog Y Cyfnod.

**1996 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd, Alan Jones Evans. Yn benodol, soniodd am lwyddiant Cyngor Gwynedd i gael cefnogaeth unfrydol Fforwm Cynghorau gwledig i rwystro rhai o berchnogion ail gartrefi rhag cofrestru fel busnesau ac felly osgoi talu trethi gwerth miliynau o bunnau i'r Cynghorau Sir. Bydd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru yn fuan i geisio modd i roi terfyn ar yr arfer hwn. Ateggodd y Cadeirydd werthfawrogiad y cyn-gadeirydd o waith y Cynghorydd dros y gymuned.

**1997 Materion ariannol:** Derbyniwyd adroddiad yr Is-Bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 29/4/19.

Cytunodd pob Cynghorydd i wrthod y tal o £150 y flwyddyn y mae ganddynt yr hawl iddo, a dywedodd pob un eu bod yn rhoi'r tâl yn ôl i goffrau'r Cyngor er lles y gymuned leol.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

**1998 Is-bwyllgor Paneli:** Derbyniwyd adroddiad; cytunodd y Clerc i gysylltu gyda'r Adran Gynllunio i'w hannog i fwrw ymlaen gyda'r cais cynllunio er mwyn i'r paneli cael eu gosod mewn gwahanol ardaloedd o'r pentref. Cytunwyd i anfon at Urdd Gobaith Cymru, Glan-llyn ac at Dafarn yr Eagles i ddiolch yn fawr iawn am eu cyfraniadau hael tuag at y Paneli.

**1999 Materion Eiddo'r Cyngor:**

- i. Derbyniwyd Adroddiad ar gyflwr yr eiddo. Cytunwyd i gael gwared â'r sied yn y fynwent, yn hytrach na mynd i gostau ei thrwsio. Cytunwyd i ofyn am staenio a thrwsio'r hysbysfwrdd sydd yn y Llan.
- ii. **Is-Bwyllgor Cyfleusterau:** Mae diweddariad i'r rhaglen waith wedi ei hanfon at gontractwyr er mwyn cael prisiau.
- iii. Disgwylir cyfarfod buan gyda swyddog Parc Cenedlaethol Eryri cyn symud ymlaen gyda gwaith ar Lwybr y Cei a'r fynwent.
- iv. **Is bwyllgor y Fynwent:** Disgwylir pris gan y cwmni arbenigol ar waith yn adran yr Eglwys o'r fynwent.

**2000 Materion lleol:** Cytunwyd i gynnig cymorth yr aelodau i'r gangen leol o Ferched y Wawr gyda'u prosiect o gasglu sbwriel yn y gymuned, a diolchwyd i'r gwirfoddolwyr sydd eisoes wedi casglu sbwriel ar hyd Lwybr Tegid.

Roedd cwynion fod rhai casgliadau sbwriel ar benwythnos yn cael eu methu; dywedodd Alan Jones Evans fydd y sefyllfa'n gwella pan ddaw'r drefn newydd o gasglu sbwriel yn dod i fodolaeth.

Dywedwyd fod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol O M Edwards yn awyddus i greu maes chwarae aml-bwrpas a fydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd tu allan i oriau ysgol. Cytunwyd i roi cefnogaeth mewn egwyddor i'r cynllun.

**2001 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alwyn E Jones a soniodd am lwyddiant i ddenu grant at waith Canolfan Henblas.

**2002 Gohebiaeth:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd Cais NP5/71/93A i osod 2 bwyler biomas a chynhwysydd dur 20 troedfedd gyda sgrin wedi ei blannu yn Nant Hir, Cynllwyd.
- ii. **Un Llais Cymru:** Nid oedd cynigion i'r Gynhadledd.
- iii. Mynegwyd parodrwydd Alwyn E Jones a Huw Antur i fynychu Cynhadledd ar greu Cynlluniau Bro yn Llanrwst ar 11/6/19 ar ran Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

Amser gorffen: 8.45pm